# Sut y dylai Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru weithio?

View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg

14/03/17

Ar 15 Mawrth, bydd y Cynulliad yn cynnal dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC)  Cafodd y Pwyllgor fod llawer i gytuno ag ef wrth graffu ar gynigion Llywodraeth Cymru, ond gwnaeth y Pwyllgor 10 argymhelliad i helpu i sicrhau bod anghenion seilwaith Cymru yn cael eu diwallu yn awr ac yn y dyfodol.

## Beth yw Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, a pham y dewisodd y Pwyllgor ei ystyried?



Roedd y compact a luniwyd rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru ym mis Mai 2016 yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yng Nghymru.  Yn ôl cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y comisiwn, bydd yn gorff anstatudol sy'n darparu cyngor technegol a strategol annibynnol ac arbenigol i Lywodraeth Cymru ar anghenion seilwaith hirdymor Cymru dros gyfnod o bump i 30 mlynedd.  Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar seilwaith economaidd ac amgylcheddol.  Llywodraeth Cymru fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau a pholisi seilwaith.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi dweud mai ei uchelgais ar gyfer CSCC yw dadwleidyddoli'r penderfyniadau dadleuol ynghylch seilwaith, a chyflymu'r gwaith o gyflwyno prosiectau allweddol.  Ym mis Hydref 2016, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'n anelu at sefydlu CSCC erbyn haf

2017, ond mewn datganiad ysgrifenedig ar 8 Mawrth, dywedodd ei fod bellach yn anelu at ei sefydlu erbyn diwedd 2017.

Roed craffu ar y cynlluniau i sefydlu CSCC yn un o'r prif flaenoriaethau i nifer o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i ymgynghoriad y cynhaliodd y Pwyllgor ynghylch ei flaenoriaethau yr haf diwethaf. Roedd y prif faterion a godwyd gan randdeiliaid yn cynnwys yr angen am weledigaeth hirdymor ar gyfer seilwaith, rôl a chylch gwaith CSCC, sut y bydd yn effeithio ar brosiectau allweddol, dysgu o arfer gorau rhyngwladol, a sut y gall wella'r trefniadau cyfredol ar gyfer cyflwyno seilwaith.

## Sut yr ychwanegodd gwaith y Pwyllgor at gynigion Llywodraeth Cymru?

Derbyniodd Llywodraeth Cymru chwech o argymhellion y Pwyllgor, gan dderbyn tri mewn egwyddor a gwrthod un. Felly, dyma'r ffyrdd y mae'r Pwyllgor wedi dylanwadu ar y model ar gyfer CSCC:

- Bydd un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar yr ymgeisydd a ffafrir i gadeirio CSCC mewn gwrandawiad cyn penodi, fel y gwnaeth Pwyllgor Cyllid yn ddiweddar yn achos yr ymgeisydd a ffafriwyd i gadeirio Awdurdod Refeniw Cymru.
- Bydd CSCC yn cynhyrchu adroddiad 'Cyflwr y Genedl' ar anghenion seilwaith Cymru yn y dyfodol bob tair blynedd fel na fydd cysylltiad rhwng ei waith a'r cylch gwleidyddol, a bydd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar lywodraethu, ac ar waith a fu a gwaith sydd ar y gweill. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i bob un o'r argymhellion o fewn chwe mis.
- Bydd ei lythyr cylch gwaith blynyddol yn darparu gwybodaeth am faint y bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y gall ei wario o ran cyllid seilwaith dros yr amserlen hiraf posibl, a hynny er mwyn rhoi cyd-destun pwysig i'r argymhellion.
- Bydd y llythyr cylch gwaith hefyd yn annog i CSCC feithrin perthynas gref â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU ac Ymddiriedolaeth Dyfodol yr Alban i fod mor effeithiol ag y bo modd.
- Bydd angen i benodiadau i CSCC ystyried yr amrywiaeth yng nghymunedau Cymru, a nodir ymgysylltu ar y lefel ranbarthol yn ei gylch gorchwyl.

– Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried mecanweithiau megis y Banc Datblygu i ganolbwyntio ar sut y gellir defnyddio mwy o arian preifat i gefnogi datblygiadau seilwaith.

## A beth sydd ar ôl i'w drafod?

Un o brif argymhellion y Pwyllgor oedd y byddai deddfwriaeth yn gwneud CSCC yn gorff statudol ar ôl iddo gael ei sefydlu.

Cafodd tystiolaeth gan gyrff sy'n cynghori ar seilwaith ar lefel ffederal a gwladwriaethol yn Awstralia ddylanwad ar hyn, a dywedwyd wrth y Pwyllgor fod eu statws statudol annibynnol wedi cryfhau eu statws fel llais arbenigol ar seilwaith, ac y byddai manteision y dull hwn yn berthnasol y tu hwnt i Awstralia.

Dywedodd Prif Weithredwr Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU wrth y Pwyllgor fod y ffaith ei fod yn gorff anstatudol yn golygu iddo gael ei sefydlu yn gynt, ond bod anfantais hefyd gan ei fod yn llai parhaol yng ngolwg rhanddeiliaid.

**Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn,** gan nad yw'n ystyried y byddai rhoi CSCC ar sail statudol yn gwella ei rôl na'i gylch gwaith. Fodd bynnag, bydd yn ystyried hyn fel rhan o adolygiad ffurfiol a gynhelir cyn diwedd y Pumed Cynulliad.

Hefyd, derbyniodd Llywodraeth Cymru dri argymhelliad mewn egwyddor. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ehangu cylch gwaith CSCC i gynnwys y cyflenwad o dir ar gyfer datblygiadau tai sy'n arwyddocaol yn strategol a seilwaith ategol cysylltiedig. Er mai seilwaith economaidd ac amgylcheddol fydd cylch gwaith CSCC ar y dechrau, fe adolygir hyn erbyn diwedd y Pumed Cynulliad.

Hefyd, roeddy Pwyllgor am i CSCC gael ei leoli y tu allan i Gaerdydd, ac iddo rannu llety â chorff cyhoeddus arall er mwyn sicrhau costau is. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn ystyried hyn, a derbyn yr angen i CSCC fod yn annibynnol ar y cyrff y bydd yn rhaid iddo weithio gyda hwy.

Yn olaf, ystyriodd y Pwyllgor y dylai CSCC gael ei ystyried yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo cydweithio, ymgysylltu â'r cyhoedd ac annibyniaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd ei gylch gorchwyl yn sicrhau ei bod yn ofynnol i CSCC gadw at egwyddorion ac amcanion y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fydd yn ceisio newid y Ddeddf ar hyn o bryd.

Erthygl gan Gareth Thomas, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llun o Flickr gan Ben Salter. Dan drwydded Creative Commons.